# CYNGOR TREF PORTHMADOG

Gorffennaf 23  2024

Annwyl Gynghorydd,
Gwysir chi i gyfarfod o Bwyllgor Eiddo a Datblygu am 19.00 ar Nos Fawrth Gorffennaf 30 2024 yn Ystafell Glaslyn , Y Ganolfan , gyda Phwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol i ddilyn.

Yn gywir,
Marian Roberts
( Clerc)

**RHAGLEN PWYLLGOR EIDDO A DATBLYGU**
**7 yh nos Fawrth Gorffennaf 30 2024**

**1.** **Ymddiheuriadau**

**2.** **Cae Pawb –**

- Penderfynu ar gais gan Gadeirydd Cymdeithas Rhandiroedd Cae Pawb i ofyn i denantiaid newydd am ernes er mwyn sicrhau bod y rhandir yn cael ei adael mewn cyflwr derbyniol pan fyddant yn penderfynu gadael y rhandir.
- Penderfynu ar gais gan Gadeirydd Cymdeithas Rhandiroedd Cae Pawb i drefnu cael gwasanaeth i strimmer Cae Pawb.
- Penderfynu ar gais gan Gadeirydd Cymdeithas Rhandiroedd Cae Pawb i roi cyfnod prawf o 3 mis i denantiaid newydd ac i ddychwelyd eu rhent os nad ydynt wedi gwneud unrhyw ymdrech i drin y rhandir yn ystod y cyfnod prawf.

**3. Llwybrau**

- **Cyng Aled Griffith –** Cynnig gwneud cais i Gyngor Gwynedd osod arwyddion ar lwybr newydd Peniel i lwybr y Cyt.
- **Cyng Aled Griffith –** Cynnig gwneud cais i Gyngor Gwynedd droi llwybr Peniel yn lwybr teithio beicio llesol a diogel o Dremadog i Borthmadog.

**4.** **Cae Bodawen**

- Diweddariad ar y broses o osod giât newydd ar y fynedfa.

**5.** **Bryn Coffa**

- Diweddariad ar y broses o osod canllaw ar y grisiau.

**6.** **Llochesi Bws**

**7.** **Cerflun Mr. Madocks**

**8.** **Syniadau i ddatblygu'r dref  -**
Gweler taflen Datblygiadau 2024

*Marian Roberts (Clerc/Clerk),29 Maes Gerddi, Porthmadog,Gwynedd,LL49 9LE*
*Ffôn / Tel : 01766 513709*
*E-bost/ e-mail : clerccyngtreport@gmail.com*